# Ysgol Gynradd Victoria

WCIA
WELSH CENTRE FOR INTERNATIONAL AFFAIRS
CANOLFAN MATERION RHYNGWLADOL CYMRU

## Cyflwyniad

Ym mis Gorffennaf 2019, ymunodd Ysgol Gynradd Victoria, Wrecsam â Chynllun Ysgolion Heddwch Cymru, cynllun lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel, ac fel eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi, a lle mae ysgolion yn ceisio datblygu ethos sy'n seiliedig ar gydweithredu, parchu gwahaniaethau a datrys problemau.

Fel ysgol amrywiol (gyda disgyblion yn dod o fwy nag 20 o wledydd gwahanol) roeddent o'r farn bod angen hyrwyddo cydlyniant, cydweithredu a dathlu eu natur unigryw. Dyna sut y dechreuodd eu taith.




DYSGU AM HEDDWCH—ARDDANGOSFA HEDDWCH

Beth wnaeth wneud i chi benderfynu dod yn Ysgol Heddwch?

Fel ysgol, rydym eisiau hyrwyddo a dathlu heddwch fel 'y norm'. Rydym eisiau dathlu heddwch a chydweithredu ar lefel leol, genedlaethol ac ar lefel fyd-eang. Rydym eisiau meithrin ein disgyblion i ddod yn unigolion goddefgar, cydweithredol a pharchus sy'n gallu defnyddio meddwl beirniadol i ddatrys materion yn heddychlon, a chydweithio i wneud y byd yn lle gwell. Rydym eisiau i 'heddwch' gael proffil uchel mewn ysgolion, a fydd yn effeithio ar bob rhan o'n gwaith.

Sut wnaethoch chi gynnwys straeon heddwch yn y cwricwlwm?

Fe wnaethom gynnwys straeon heddwch yn ein cynlluniau gwaith ABCh, Addysg Bellach a'r dyniaethau, ac maen nhw'n rhan o'n gwasanaethau ysgol a chynyrchiadau grŵp blwyddyn. Fe wnaethom gysylltu heddwch â'n pynciau celfyddydau mynegiannol a'n hunedau gwneud ffilmiau hefyd, a gweithio ar weithdai / themâu ar y cyd ar gyfer myfyrio.

## Yr effaith hyd yn hyn

Fe wnaethom sylweddoli bod gan werthoedd ein hysgol o fod yn Barod, Parchus a Diogel ystyr newydd a dyfnach pan oedd y plant yn eu cysylltu â'n Statws Ysgol Heddwch.

Cyn y pandemig, fe wnaethom sylweddoli fod y disgyblion yn siarad yn well â'i gilydd.

Roedd ein plant yn dechrau deall bod heddwch mewnol yn gysylltiedig â lles.

Roedd y plant eisiau cael ardaloedd 'heddychlon' yn yr ysgol, gan gynnwys gardd heddwch ac ystafell fyfyrio, o'r enw 'Our Breathing Space'.

Erbyn hyn, mae gan bob ystafell ddosbarth ardaloedd heddychlon/myfyrio.

**"Yn y gorffennol, byddai plant yn cysylltu'r gair 'heddwch' â'r gwrthwyneb i ryfel. Erbyn hyn, rydym yn gwybod bod gan y plant ddealltwriaeth fwy eang o ystyr heddwch"**